CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin hybrid y Cyngor a gynhaliwyd gan ddefnyddio llwyfan fideo/ffôn gynadledda Zoom yn ogystal ag wyneb yn wyneb yng Ngholeg Llysfasi, nos Lun, 14 Tachwedd 2022 am 7:00pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Moulsdale [Is-gadeirydd], Eilir Jones, Osian Owen, Ceri Ranson, Shaun Williams ac Owen Evans ynghyd â'r Clerc, Sian E Thomas.
Dechreuodd y cyfarfod am 7:02pm.

912. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

913. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Huw Edwards a'r Cynghorydd Sir Hugh Evans.

914. Cafwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Moulsdale yng nghyswllt eitem 923d a'r Cynghorydd Baker o ran eitem 923e.

915. Bydd y cyflwyniad gan Gyngor Sir Ddinbych yn cael ei aildrefnu oherwydd newidiadau staffio yno.

916. Sesiwn Cyfranogiad Cyhoeddus yn parhau am uchafswm o 10 munud. Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

917. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

918. Materion yn codi o'r cofnodion:

a. Mae'r holl Gynghorwyr wedi derbyn y wybodaeth a gyflwynwyd gan Un Llais Cymru yn eu cwrs Mannau Agored.
b. Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch hysbysu defnyddwyr cludiant ysgol pan fydd gwaith ffordd yn cael ei gynnal yn yr ardal. Maent yn hysbysu defnyddwyr am amserlen y gwaith ond nid yw'n hawdd pan yw'n waith heb ei drefnu ymlaen llaw ac ymddiheurwyd am unrhyw anghyfleustra a achoswyd.
c. Atgoffwyd Alex Bebbington fod angen iddo roi adroddiad i ni yn dilyn dod i'n cyfarfod ym mis Gorffennaf.
d. Roedd y Clerc wedi cysylltu â Chynghorau Cymuned Efenechtyd a Gwyddelwern ynghylch goryrru. Ni dderbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Gwyddelwern ond gweler eitem 922a isod.
e. Roedd y Clerc wedi prynu gliniadur newydd a meddalwedd priodol.
f. Gwagle agored yng Nghraigfechan. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau nad man i gŵn gael ymarfer corff yw hwn. **Gweithred:** Y Clerc i ofyn i Gyngor Sir Ddinbych a yw'n mynd i osod arwydd Dim Cŵn, ac eithrio cŵn cymorth yno.

DRA

g. Mae torri'r gwrych yr ochr isaf i dafarn y Three Pigeons yn gyfrifoldeb y perchennog tir, nid Cyngor Sir Ddinbych.

h. Mae modd i'r Cyngor gyfarfod yn Llysfasi ar nos Lun cyntaf bob mis, fodd bynnag, gan nad oedd unrhyw gyfarfodydd eraill yno ar y nosweithiau hynny byddai'n costio £65 y cyfarfod. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Choleg Llysfasi i gadarnhau bod hyn yn gywir ac, os yw'n gywir, i ofyn iddynt ein hysbysu os oes unrhyw un arall yn dymuno defnyddio'r adeilad ar nos Lun cyntaf bob mis. A fedrwn ni ddefnyddio neuadd y pentref yn Llanfair ar gyfer cyfarfodydd? **Gweithred:** Keith i weld a oes gan neuadd y pentref y cyfleusterau angenrheidiol ac a yw ar gael ar nos Lun cyntaf bob mis.

919. Nodwyd nad oes unrhyw aelodau'r gymuned wedi gofyn am etholiad felly mae hysbysiadau wedi'u dosbarthu nawr yn gofyn i unrhyw un â diddordeb mewn cael ei gyfethol gysylltu â'r Clerc. Y dyddiad cau yw dydd Gwener, 30 Tachwedd 2022.

920. Safle'r hen ysgol a chae chwarae Llanfair DC – Diweddariad Trosglwyddo Ased Cymunedol

a. Grant Cymunedau Gwyrdd. Rhaid cyflwyno'r cais erbyn dydd Iau, 17 Tachwedd 2022. Mae'r ffurflen gais wedi ei llenwi bron yn derfynol ac rydym ni'n gofyn am gyllid ar gyfer yr eitemau a restrir isod ynghyd â 50m o ffensys pen crwm ychwanegol a hysbysfwrdd:

Mainc x 3	£1,944.00
Planhigion gwrych 210	£400.68
Mainc cadair olwyn	£684.00
Giatiau a ffensys	£5,495.50
Postyn gwrthsefyll adar x 2	£2,832.00
Coed ffrwythau x 50	£2,010.00
Gwaith tir – mynedfa newydd	£32,887.85
Cyfanswm	**£46,254.03**

b. Trefnwyd cynnal cyfarfod â Chyngor Sir Ddinbych ddydd Gwener, 18 Tachwedd 2022.

c. Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw beth rhagor gan ein cyfreithiwr ac roedd Cyngor Sir Ddinbych yn aros am hyn cyn symud ymlaen. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â'r cyfreithiwr eto.

921. Pwyllgor Rheoli'r Cae Chwarae – diweddariad

Roedd presenoldeb da yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli a gynhaliwyd ar 20 Hydref. Etholwyd swyddogion a bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal ar 6 Rhagfyr 2022 yn Neuadd Eleanor i'r aelodau lofnodi'r cyfansoddiad a bydd y broses o greu Cwmni Budd Cymunedol yn dechrau a chyfrif banc yn cael ei agor. Bydd y Cynghorydd Keith Moulsdale yn Cadeirio'r pwyllgor am

DRAFT

12 mis a bydd y Clerc yn Drysorydd am 12 mis, a bydd y Cyngor Cymuned yn talu am hyn.

922. Materion Priffyrdd ac Amgylcheddol

a. Cysylltwyd â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch y problemau goryrru a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. Ni dderbyniwyd ymateb ynghylch Graigfechan ond derbyniwyd gohebiaeth ynghylch Llanfair. Yn anffodus ni fydd GAN BWYLL yn gweithreu mewn ardal tan o leiaf 18 mis yn dilyn newid yn y terfyn cyflymder. Gofynnwyd i Gyngor Sir Ddinbych ystyried gosod croesfan pelican ar yr A525 ond dywed y byddai gwneud hynny'n rhy ddrud. Fodd bynnag, mae trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal cyfarfod rhwng cynghorwyr Llanfair, cynghorwyr Efenecthyd, yr heddlu a Darren Millar er mwyn symud ymlaen. Mae'r Cynghorydd Sir Hugh Evans hefyd yn y broses o drefnu cyfarfod â'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

b. Mae arwydd pentref Llanfair DC yn mynd i gael ei symud yn agosach at Rhuthun. Mae trafodaethau'n digwydd ynghylch y lle gorau i'w osod. Os yw'n ofynnol cael arwydd mwy o faint yna byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned dalu £1,000 amdano. **Penderfynwyd:** Cytuno i dalu'r swm o £1,000 os gellir cael arwydd mwy. **Gweithred:** Y Clerc i ymchwilio a oes unrhyw grantiau ar gael ar gyfer hyn ac i ofyn i Gyngor Sir Ddinbych a ellid ei leoli ar ochr arall y ffordd.

c. Mae'r Clerc wedi cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynghylch biniau sbwriel newydd ond nid ydynt wedi ymddangos hyd yma. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych eto.

923. Materion Cyllid

a. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiweddariad am y sefyllfa bancio a'r tasgau ariannol a'r taliadau a ganlyn angen eu cymeradwyo:

b. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y rhestr taliadau ar gyfer mis Hydref.

K Moulsdale	Ad-daliad am y clo a thaflenni	£80.18
AVOW	Anfoneb cyflogres mis Hydref 2022	£530.50
Sian E Thomas	Ad-daliad am liniadur o Currys	£799.00
HSBC	Ffioedd bancio am fis Medi 2022	£5.40
Fineline	Hysbysfwrdd A2 Cae Chwarae	£72.78
Sian E Thomas	Prynu meddalwedd MS Office ar gyfer y gliniadur	£85.99
Avow	Ffioedd cyflogres a chyflog y Clerc, mis Tachwedd 2022	£574.63
	Cyfanswm	£2,148.48

Penderfynwyd: gwneud y taliadau.

c. Derbyniwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol gan:
   i. Eisteddfod 2023

DRAFT

Penderfynwyd: gohirio ystyried pob cais am gyfraniad ariannol nes bo'r Clerc wedi llunio cyllideb chwe mis.

d. Cytunwyd, mewn egwyddor, i roi cyfraniad oddeutu £2,500 i Neuadd y Pentref ar gyfer gwaith atgyweirio'r porth. **Gweithred:** Y Cynghorydd Moulsdale i ddarparu dyfynbrisiau erbyn y cyfarfod nesaf.
e. Roedd y Clerc wedi derbyn cais gan yr Eglwys am gyllid i atgyweirio'r wal. Roedd y Clerc wedi ymateb gan ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned am y wal. Ymddengys bod arwydd yn y fynwent yn dweud mai'r Cyngor Cymuned sy'n berchen y wal ond gallai dogfennau o rhwng 1960 a 1968 ddatgelu rhywbeth sy'n profi mai'r Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol amdani.
f. Dyfarniad Cyflog costau byw. **Penderfynwyd:** talu'r dyfarniad cyflog £1 yr awr i'r Clerc o 1 Gorffennaf 2022 a thalu'r Clerc blaenorol y £1 yr awr ychwanegol o 1 Ebrill 2022 hyd at 31 Awst 2022.
g. Y Gofeb Rhyfel. **Gweithred**: Y Clerc i gofrestru buddiant gyda'r Gofrestrfa Tir gan ei bod yn ymddangos nad yw'r Cyngor Cymuned yn berchen ar y gofeb ond ei fod wedi talu oddeutu £30,000 i'w uwchraddio. Pan fydd y sefyllfa o ran yr elusendai wedi'i datrys ac elusen yn cael ei sefydlu gallai'r Cyngor Cymuned elwa'n ariannol.

DRAFT

924. Roedd y Clerc wedi cwblhau'r cais cynllunio ar gyfer torri'r goeden yn y cae chwarae sy'n agos at Hafod y Bryn, fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth. Yna cyfarfu â Swyddog Coed Cyngor Sir Ddinbych ar y safle, sydd wedi dweud ei bod yn annhebygol iawn cael caniatâd i dorri'r goeden i lawr gan nad yw wedi'i niweidio nac yn dioddef o glefyd. Anaml iawn mae Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi caniatâd i dorri coed iach i lawr, yn enwedig mewn Ardal Gadwraeth. Dylai ymateb swyddogol Cyngor Sir Ddinbych fod ar gael yn yr wythnosau nesaf ac maent yn mynd i siarad â thrigolion Hafod y Bryn. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ganfod pryd maent yn mynd i leihau coron y goeden gan fod hyn i fod i gael ei wneud cyn pen chwe mis o ddyddiad yr adroddiad a gafwyd ym mis Rhagfyr 2021.

925. Cynlluniau Hyfforddiant. **Gweithred:** Mae'n ofynnol i'r holl Gynghorwyr lenwi'r rhain a gofynnwyd iddynt gysylltu â'r Clerc os ydynt angen unrhyw gymorth gan fod angen eu llenwi erbyn 30 Tachwedd 2022.

926. Materion Cynllunio. Derbyniwyd ceisiadau cynllunio ynghylch:

a. Erw Ddôl, Graigfechan – Dim gwrthwynebiad
b. Hen Gapel, Pentrecoch – Dim gwrthwynebiad
c. Plas Newydd – Dim gwrthwynebiad
d. Anecs Plas Newydd – Dim gwrthwynebiad

927. Gohebiaeth i'w adolygu

a. Llythyr gan un o drigolion Graigfechan. **Gweithred:** Y Clerc i ymateb yn nodi mai polisi'r Cyngor yw peidio â rhoi cefnogaeth i unigolion felly, yn anffodus, ni fyddwn yn darparu unrhyw gyllid.
b. Nodwyd bod gwaith trwsio'r ffyrdd i'w gynnal yn yr ardal.
c. Mae angen cwblhau'r Adroddiad Ased Cymunedol erbyn 31 Rhagfyr 2022.
d. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal yn genedlaethol yn trafod taliadau posibl o £6 y mis i Gynghorwyr am ddefnyddio eu cartref fel swyddfa o fis Ebrill nesaf. **Penderfynwyd**: ychwanegu hyn at y praesept os yw'n cael ei gyflwyno.

928. Eitemau wedi'u dwyn i sylw Cynghorwyr
a. Nid yw ffordd y Silff o Bentrecoch i Landegla wedi'i thrwsio. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ganfod pryd fydd y gwaith hwn yn cael ei wneud.

929. Cytunwyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 5 Rhagfyr 2022 am 7:00pm.

Gorffennodd y cyfarfod am 8:45pm

DRA

CADEIRYDD DYDDIAD

…… ……